Gwybodaeth Am Y Gadwyn Fwyd - Gwybodaeth I Weithredwyr Lladd-Dai

Cefndir

Daw deddfwriaeth[1] i rym ar 1 Ionawr 2008 sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr lladd-dai ofyn am wybodaeth am y gadwyn fwyd ar gyfer pob mochyn a anfonir i'r lladd-dy, cael y wybodaeth honno, ei gwirio a gweithredu arni.

Mae'r gofyniad hwn yn rhan o'r gadwyn gyfan, y dull o'r fferm i'r fforc o ran diogelwch bwyd a gyflwynwyd gan y Rheoliadau Hylendid o ddechrau 2006 ymlaen. Dim ond ar gyfer dofednod yr oedd yn ofynnol rhoi trefniadau Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd ar waith i ddechrau, gan ohirio'r broses o weithredu trefniadau Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd ar gyfer rhywogaethau eraill a'u rhoi ar waith yn gynyddol; moch o 2008; gwartheg a defaid o 2010.

Mae Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd yn cyfrannu at systemau rheoli diogelwch bwyd yn seiliedig ar HACCP gweithredwyr lladd-dai drwy roi gwybodaeth am anifeiliaid a gaiff eu caffael i'w lladd. Bydd llawer o weithredwyr busnesau bwyd eisoes yn gofyn am lawer o'r wybodaeth hon gan eu cyflenwyr moch fel rhan o'u cydberthynas fasnachol â hwy, a dim ond ychydig mwy o waith y bydd yn rhaid i lawer ohonynt ei wneud er mwyn cydymffurfio â hyn.

Cynnwys y Wybodaeth am y Gadwyn Fwyd

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi gweithio gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill i ddarparu'r canllawiau drafft amgaeëdig ar elfennau'r Wybodaeth am y Gadwyn Fwyd a nodir yn y ddeddfwriaeth. Mae'r canllawiau drafft hyn wedi'u datblygu gyda'r nod o sicrhau bod Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd wedi'i chyfyngu i wybodaeth y gall y gweithredwr neu staff y Gwasanaeth Hylendid Cig yn y lladd-dy ei defnyddio'n uniongyrchol, heb roi unrhyw faich diangen ychwanegol ar y diwydiant. Dylid ystyried y canllawiau fel gofynion sylfaenol - yn y pen draw, gweithredwyr lladd-dai sy'n penderfynu ar y wybodaeth y mae ei hangen arnynt gan eu cyflenwyr.

[1] Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 sy'n nodi rheolau penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid

Gellir symleiddio'r broses o ddarparu Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd drwy ei rhannu'n ddwy ran:

- gwybodaeth am y daliad (sy'n debygol o aros yn gyson ac mai dim ond yn achlysurol y bydd angen ei diweddaru)
- gwybodaeth am y llwyth penodol o foch

Unwaith y bydd gennych y wybodaeth angenrheidiol am y daliad ar gyfer eich cyflenwyr rheolaidd, dim ond y wybodaeth am bob anfoniad y bydd angen iddynt ei rhoi i chi.

Ar hyn o bryd dylai gweithredwyr lladd-dai ofyn am wybodaeth am yr holl foch sy'n dangos arwyddion o annormaledd (sy'n cyfateb i'r hen ddatganiad o dan Atodlen 18). Mae Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd yn ehangu'r gofyniad hwn o ran gwybodaeth i bob mochyn - pan fo moch yn dangos arwyddion o annormaledd, dylid cynnwys gwybodaeth am hyn yn y Wybodaeth am y Gadwyn Fwyd ar gyfer y llwyth.

Elfen o'r Wybodaeth am y Gadwyn Fwyd yw'r wybodaeth am ganlyniadau blaenorol archwiliadau o foch o'r un daliad. Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig wrthi'n datblygu systemau ar gyfer cofnodi canlyniadau archwiliadau a hysbysu cynhyrchwyr ohonynt (gweler isod). Bydd yn ofynnol i gynhyrchwyr roi'r wybodaeth hon i weithredwyr lladd-dai gyda llwythi dilynol o foch.

Defnyddio Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd

Dylai gweithredwyr lladd-dai ddefnyddio Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd i lywio eu systemau rheoli diogelwch bwyd yn seiliedig ar HACCP ac i wneud penderfyniadau ynglŷn â derbyn anifeiliaid ac unrhyw drefniadau arbennig e.e. lladd ar ddiwedd llwyth, gofynion trin ychwanegol. Yna dylid trosglwyddo'r Wybodaeth am y Gadwyn Fwyd i'r Milfeddyg Swyddogol a dylid rhoi gwybod iddo am unrhyw bryderon o ran iechyd y moch cyn archwiliad cyn lladd.

Bydd y Milfeddyg Swyddogol yn defnyddio'r Wybodaeth am y Gadwyn Fwyd i benderfynu ar unrhyw drefniadau archwilio cyn lladd ac ar ôl lladd arbennig neu gamau gweithredu ychwanegol e.e. profion ar gyfer Trichinella.

Bydd darparu Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd effeithiol yn creu'r posibilrwydd o gael systemau archwilio ar ôl lladd gweledol yn unig. Mae'r Rheoliadau Hylendid yn caniatáu defnyddio archwiliad o'r fath ar gyfer moch o dan amodau penodol ac ar sail y data epidemiolegol o'r daliad. Unwaith y bydd systemau Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd dibynadwy ar waith, sy'n galluogi'r Milfeddyg Swyddogol i asesu pa mor gymwys yw'r llwythi o foch ar gyfer archwiliad syml, gellir ystyried rhoi archwiliad ar ôl lladd gweledol yn unig ar waith yn y DU.

Amseru

Ar hyn o bryd, mae'r gofyniad i roi Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd i weithredwyr lladd-dai o leiaf 24 awr ymlaen llaw cyn derbyn anifeiliaid wedi'i lacio. Er bod hyn yn golygu y gellir anfon Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd gyda'r moch, ni fydd yn rhoi digon o amser i weithredwyr edrych arni a gweithredu arni. Mae'r rhan fwyaf o ladd-dai moch yn trefnu dosbarthu moch gan gyflenwyr penodol ymhell cyn eu lladd. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn argymell y dylai gweithredwyr lladd-dai ofyn i gyflenwyr roi Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd mewn digon o amser cyn eu dosbarthu i'r lladd-dy er mwyn eu galluogi hwy a'r Milfeddyg Swyddogol i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol.

<u>Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd - materion ymarferol a phrosiect BPEX</u>

Cyfrifoldeb gweithredwyr lladd-dai yw gofyn am Wybodaeth am y Gadwyn Fwyd a'i chael, ynghyd â'r ffordd o wneud hyn. Efallai y bydd systemau papur yn ddigon mewn lladd-dai bach ond bydd hyn yn creu anawsterau i sefydliadau mwy sy'n delio â llawer o gyflenwyr, ac i gynhyrchwyr sy'n anfon anfoniadau o foch i gael eu lladd yn rheolaidd.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi gweithio gyda BPEX ar brosiect peilot ar systemau cyfnewid gwybodaeth. Nod gwreiddiol y prosiect hwn oedd profi dichonoldeb a manteision system cyfnewid gwybodaeth electronig rhwng gweithredwyr lladd-dai a chynhyrchwyr moch. Ers hynny mae wedi'i ehangu i gynnwys adborth ar ganlyniadau archwilio'r Gwasanaeth Hylendid Cig i gynhyrchwyr a'u milfeddygon.

Mae'r prosiect peilot BPEX yn system ar y we sy'n defnyddio cronfeydd data cyfredol BPEX. Dechreuwyd cynnal treialon ymarferol mewn un safle mawr ym mis Medi 2007 ac maent bellach ar waith mewn sawl safle. Bwriedir i'r prosiect peilot fod ar waith tan fis

Mawrth 2008 pan wneir penderfyniad o ran ei roi ar waith yn yr hirdymor. Cred yr Asiantaeth Safonau Bwyd fod y system electronig hon yn werthfawr o ran diogelwch bwyd yn ogystal â'r potensial i gael manteision masnachol i'r diwydiant, a hoffai annog gweithredwyr lladd-dai a chynhyrchwyr moch i'w defnyddio.

Dylai gweithredwyr lladd-dai sy'n ystyried defnyddio system Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd electronig BPEX gysylltu ag Andrew Knowles (gweler y manylion isod) i'w thrafod ac i drefnu sesiwn hyfforddi.

Casglu a Chyfleu Canlyniadau Archwiliadau gan y Gwasanaeth Hylendid Cig

Fel rhan o brosiect yr Asiantaeth Safonau Bwyd/BPEX, mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig yn datblygu systemau ar gyfer casglu canlyniadau archwiliadau cyn lladd ac ar ôl lladd a'u cyfateb i bob llwyth o foch. Yn y gorffennol, cofnodwyd y canlyniadau hyn yn ddyddiol ar gyfer pob lladd-dy, ac nid oedd llawer o gyfle i gysylltu'r canlyniadau â'r moch o ffynonellau cyflenwyr unigol. Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig a'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi gweithio gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu penawdau amodau newydd ar gyfer cofnodi canlyniadau archwiliadau, gyda'r nod o gasglu gwybodaeth a chyflwyno adroddiadau arni ar ffurf a fydd o'r budd mwyaf i bawb - gweithredwyr lladd-dai, cynhyrchwyr moch a'u milfeddygol. Yn ogystal, bydd dulliau gwell o gofnodi canlyniadau archwiliadau yn galluogi dadansoddiad gwell at ddibenion gwyliadwriaeth clefydau.

Bydd y Gwasanaeth Hylendid Cig yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyfleu canlyniadau archwiliadau cyn lladd ac ar ôl lladd i gynhyrchwyr. Ar gyfer cynhyrchwyr a lladd-dai sy'n cymryd rhan ym mhrosiect Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd electronig BPEX, anfonir canlyniadau archwiliadau drwy e-bost at weithredwyr lladd-dai, cynhyrchwyr a'u milfeddygon yn fuan ar ôl lladd y llwyth.

Bydd gweithredwyr a chynhyrchwyr nad ydynt yn cymryd rhan ym mhrosiect BPEX, ond sydd â mynediad i'r rhyngrwyd, yn y dyfodol, yn gallu cael adroddiadau ar eu harchwiliadau yn uniongyrchol o allrwyd y Gwasanaeth Hylendid Bwyd y mae'r Gwasanaeth yn bwriadu ei lansio ar ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Gall y rhai nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd gael eu canlyniadau ar ffurf copi caled. Bydd hyn yn amodol ar drefniadau lleol.

Dylech drafod pa ddull fyddai orau gennych i gael yr adroddiadau o ganlyniadau archwiliadau gyda'r Gwasanaeth Hylendid Cig a BPEX.

Canlyniadau Archwiliadau fel Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd

Mae adroddiadau ar archwiliadau hanesyddol ar gyfer daliad yn rhan o'r wybodaeth am y gadwyn fwyd. Gallwch weld, neu wneud copïau o ganlyniadau archwiliadau o anfoniadau blaenorol o foch o'r un safle a laddwyd yn eich lladd-dy, yn dibynnu ar ba ddull rydych yn ei ddewis o ran cael yr adroddiadau gan y Gwasanaeth Hylendid Cig. Ar gyfer moch a anfonwyd i gael eu lladd yn ddiweddar mewn lladd-dai eraill bydd angen i chi ofyn i'r cynhyrchydd roi'r adroddiadau archwilio i chi - naill ai drwy e-bost neu ar ffurf copi caled.

Ar y dechrau, hyd nes bydd system Casglu a Chyfleu Canlyniadau Archwiliadau'r Gwasanaeth Hylendid Cig wedi bod ar waith am ddigon o amser, ni fydd gan gynhyrchwyr ganlyniadau archwiliadau. Wrth i adroddiadau archwilio ddod ar gael dylech edrych arnynt a gofyn i'ch cyflenwyr ddarparu adroddiadau ar gyfer y moch a laddwyd mewn lladd-dai eraill.

Datblygiadau yn y dyfodol

Cyflwynir y canllawiau amgaeëdig ar Wybodaeth am y Gadwyn Fwyd ar ffurf ddrafft ac efallai y bydd angen eu diwygio wrth gael mwy o brofiad. Hoffai'r Asiantaeth Safonau Bwyd barhau i weithio'n agos gyda phob rhanddeiliad er mwyn sicrhau bod Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd yn ddefnyddiol, yn ymarferol ac nad yw'n gosod baich anghymesur ar y diwydiant, ac mae'n gwahodd eich sylwadau i gyflawni'r nodau hyn. Yn yr un modd, mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig yn agored i glywed safbwyntiau am sut y gellir gwella ei system Casglu a Chyfleu Canlyniadau Archwiliadau er budd rhanddeiliaid.

Mae'r manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth a sylwadau fel a ganlyn:

Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd: Kenneth Clarke, Cynghorydd Milfeddygol, yr Asiantaeth Safonau Bwyd
kenneth.clarke@foodstandards.gsi.gov.uk

Prosiect Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd electronig BPEX:
Andrew Knowles, Cydlynydd Strategaeth, BPEX

andrew_knowles@bpex.org.uk
01908 844708

Canlyniadau Archwiliadau'r Gwasanaeth Hylendid Cig:

Liz Olney, Rheolwr Busnes Technoleg Filfeddygol, y Gwasanaeth Hylendid Cig
liz.olney@mhs.gov.uk